**Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 – Rhan 4 (Triniaethau Arbennig): Gwybodaeth am Gynnydd Gweithredu**

**Tachwedd 2024. Caiff y ddogfen hon ei hadolygu a’i diweddaru yn ôl y gofyn.**

**Datganiad Sefyllfa Llywodraeth Cymru**

Mae Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn creu cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer ymarferwyr a busnesau sy'n cyflawni ‘Triniaethau Arbennig’ yng Nghymru. Y pedwar Triniaeth Arbennig benodol yn y Ddeddf yw aciwbigo (gan gynnwys nodwyddo sych), tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio (gan gynnwys colur lled-barhaol).

**Gweithgarwch cyfredol a dyddiad dechrau’r Cynllun Trwyddedu Arfaethedig**

Mae'r rheoliadau drafft terfynol bellach wedi eu cyflwyno i broses ddeddfwriaethol ffurfiol y Senedd ac maent yn destun craffu gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a hefyd pleidlais ffurfiol mewn sesiwn lawn o'r Senedd, a drefnwyd ar gyfer 26 Tachwedd 2024. Pe bai'r Senedd yn cymeradwyo'r rheoliadau ar y dyddiad hwnnw, daw’r cynllun i rym ar 29 Tachwedd 2024 a bydd yn agored i geisiadau drwy awdurdodau lleol o'r dyddiad hwnnw.

Mae Sarah Jones yn gweithio ochr yn ochr â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda'r camau olaf cyn gweithredu'r cynllun trwyddedu ddiwedd mis Tachwedd 2024.

**Pwyntiau i'w nodi**

- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol, ymarferwyr a gweithredwyr busnes i gwblhau systemau a deunyddiau ar gyfer y cynllun trwyddedu.

- Mae'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Atal a Rheoli Heintiau (IPC) ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Arbennig a reoleiddir gan Gymwysterau Cymru ar gael mewn fformatau wyneb yn wyneb ac ar-lein. Bydd gofyn i bob darpar ymgeisydd i’r cynllun (am drwydded ymarferydd a/neu dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd) ymgymryd â’r cwrs hwn a’i basio cyn y gallant wneud cais. Ar ôl ei gwblhau a'i basio'n llwyddiannus, ni fydd angen gwneud y cwrs eto. Gellir gweld y rhestr o ddarparwyr cyrsiau cymeradwy ar wefan Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd. Bydd angen i chi fod wedi cwblhau'r cwrs hwn i allu gwneud cais ar unwaith ar 29 Tachwedd pan ddaw'r cynllun i rym.

- Mae pob un o’r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi cytuno ar y ffioedd ar gyfer y cynllun ar gyfer ei flwyddyn gyntaf ac maent wedi cael eu cyhoeddi ar sail Cymru gyfan, gan sicrhau y byddant yr un fath ym mhob awdurdod lleol (gweler yr adran ar ffioedd isod).

- Bydd Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am orfodi'r gofynion trwyddedu ac am gadwcofrestr gyhoeddus genedlaethol gyfredol o drwyddedau dilys a thystysgrifau cymeradwyo sydd wedi'u dyroddi.

- Bydd mwy o bwerau i orfodi'r ddeddfwriaeth hon na’r rhai sydd ar waith ar hyn o bryd o dan y cynllun cofrestru presennol a weithredir gan yr awdurdod lleol. Mae'r rhain yn cynnwys cymryd camau yn erbyn y rhai sy'n gweithredu'n anghyfreithlon; y gallu i ddirymu trwydded; atal arferion anniogel ar unwaith; a phennu dirwyon i ddeiliaid trwydded a deiliaid tystysgrif gymeradwyo lle bo hynny'n briodol.

- Bydd canllawiau ar weithrediad y cynllun, beth sydd angen i chi ei wneud i gyflwyno cais, a’r hyn sy’n digwydd wedi hynny, yn cael eu cyhoeddi’n nes at ddyddiad dechrau’r cynllun.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Llywodraeth Cymru ar e-bost: TriniaethauArbennig@llyw.cymru

**Crynodeb o brif ofynion y cynllun trwyddedu ar gyfer ymarferwyr a gweithredwyr mangreoedd/cerbydau**

Bydd y gofynion cyfreithiol presennol o ran cofrestru a gorfodi ar gyfer aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis, tatŵio a cholur lled-barhaol yn parhau yn eu lle nes bydd y cynllun trwyddedu gorfodol yn dod i rym. Mae'n rhaid i gofrestriadau newydd o dan y cynllun cofrestru presennol ddigwydd o hyd er mwyn gweithredu'n gyfreithlon cyn i'r cynllun newydd ddod i rym.

Mae'r cynllun newydd yn grwpio'r triniaethau ychydig yn wahanol yn unol â'r diffiniadau o'r pedair triniaeth yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017:

**Aciwbigo** – yn cynnwys aciwbigo traddodiadol yn ogystal â nodwyddo sych. Nid yw'n cynnwys unrhyw ddisgyblaeth sy'n gysylltiedig ag aciwbigo nad yw'n cynnwys mewnosod nodwyddau yn y croen.

**Tyllu'r corff** – mae'n cynnwys pob rhan o'r corff, gan gynnwys tyllu'r glust a'r trwyn a rhannau personol o'r corff.

**Electrolysis** – yn berthnasol i'r defnyddiau lle mae nodwydd yn cael ei fewnosod yn y croen yn unig.

**Tatŵio** – yn cynnwys colur lled-barhaol (hy unrhyw therapi harddwch sy'n cynnwys mewnosod deunydd lliwio yn y croen) yn ogystal â thatŵio traddodiadol.

**Pwy sydd angen beth?**

- Bydd y cynllun newydd yn gymwys i bawb sydd wedi cofrestru gyda'u hawdurdod lleol ar hyn o bryd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 i ymarfer aciwbigo (gan gynnwys nodwyddo sych), tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio (gan gynnwys colur lled-barhaol), ac ar gyfer y fangre a'r cerbydau lle mae'r triniaethau hyn yn cael eu cyflawni. Bydd hefyd yn berthnasol i bob ymgeisydd newydd sy'n dymuno dod yn ymarferydd triniaeth arbennig a/neu sy'n edrych i reoli mangre/cerbyd triniaeth arbennig am y tro cyntaf.

- Rhaid i bob **ymarferydd** gael ei **drwydded triniaethau arbennig** ei hun a fydd yn cadarnhau'r driniaeth/triniaethau y mae wedi'i drwyddedu'n bersonol i'w cyflawni.

- Rhaid i bob **mangre neu gerbyd busnes triniaethau arbennig** gael **tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd ei hun**.

- Bydd angen i bob **ymarferydd sy'n gyfrifol am ei fangre/cerbyd ei hun** gael **trwydded triniaethau arbennig** (ar gyfer ei hun) a **thystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd** (ar gyfer ei fangre/cerbyd).

- Rhaid i bob un sy'n gwneud cais am drwyddedau a/neu dystysgrifau cymeradwyo fod yn o leiaf 18 oed a rhaid eu bod wedi cymryd a phasio'r cwrs Lefel 2 cymeradwy mewn Atal a Rheoli Heintiau i fod yn gymwys i wneud cais.

**Pam mae'n rhaid i mi gwblhau'r cwrs Lefel 2 mewn Atal a Rheoli Heintiau?**

Rhaid i bob ymarferydd a gweithredwr mangre/cerbyd ddilyn cwrs Lefel 2 wedi'i reoleiddio mewn Atal a Rheoli Heintiau, a'i basio, cyn y gall wneud cais am drwydded a/neu dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd. Bydd cwblhau'r cwrs yn sicrhau bod pob ymgeisydd yn gweithredu i safon gyson a mesuradwy o atal a rheoli heintiau. Efallai bod rhai ymarferwyr wedi cael hyfforddiant i lefelau uwch mewn atal a rheoli heintiau, ond nid oes modd gwneud eithriadau cyffredinol ar gyfer cymwysterau presennol heb wneud y cynllun trwyddedu'n gymhleth i'w weinyddu. Ni fyddai'n bosibl nodi a rhestru'r holl gymwysterau cyfatebol cyfredol a blaenorol, a byddai unrhyw restr o'r fath yn dyddio'n gyflym. Mae Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd (RSPH) yn rhoi manylion yr un ar ddeg o ddarparwyr hyfforddiant sydd wedi'u cymeradwyo i gyflwyno'r cwrs hwn: RSPH | Dyfarniad Lefel 2 mewn Atal a Rheoli Heintiau. Dyma unig ddarparwyr y cwrs cymeradwy hwn. Ni fydd unrhyw gwrs arall a gynigir gan wahanol gwmnïau yn darparu'r cymhwyster perthnasol.

**Beth yw cwmpas y trwyddedau/tystysgrifau hyn?**

- Bydd y drwydded triniaethau arbennig ar gyfer ymarferwyr a'r dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd yn para am 3 blynedd, ac ar ôl hynny bydd yn rhaid eu hadnewyddu trwy wneud cais i'r awdurdod lleol.

- Gall ymarferwyr sydd â thrwydded 3 blynedd weithio o unrhyw fangre cymeradwy neu gerbyd cymeradwy yng Nghymru, cyn belled â bod y fangre cymeradwy neu'r cerbyd cymeradwy hwnnw wedi'i nodi ar drwydded triniaethau arbennig yr ymarferydd. Nid yw'n ofynnol i ymarferydd gael trwydded ar wahân ar gyfer pob mangre lle mae'n gweithio, ond rhaid i'w drwydded nodi'r **holl** fangreoedd/cerbydau cymeradwy lle mae'n gweithredu.

- Bydd unrhyw un sy'n gyfrifol am fangre/cerbyd triniaethau arbennig, neu ei reoli, yn gyfrifol am gael tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd cyn y gall ymarferwyr trwyddedig weithredu yno. Nid oes angen i'r rhai sy'n rheoli mangre/cerbyd fod yn cyflawni'r triniaethau eu hunain nac yn cyflogi'r ymarferwyr trwyddedig sy'n gweithredu o'r fangre/cerbyd i fod angen tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd.

- Pan fydd y cynllun yn mynd yn fyw, bydd yn drosedd cyflawni unrhyw un o'r 4 triniaeth arbennig yn yr amgylchiadau canlynol:

    - heb drwydded triniaeth arbennig (fel ymarferydd) a/neu
    - mewn mangre/cerbyd nad yw wedi cael tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd.

- Bydd yn ofynnol arddangos y drwydded mewn safle amlwg yn y fangre/cerbyd cymeradwy lle mae’r ymarferydd yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith triniaethau arbennig. Bydd llun a ddarperir gan yr ymgeisydd gyda'i ffurflen gais ar gyfer y drwydded ymarferydd yn ymddangos ar dystysgrif y drwydded a bydd yn cael ei gynnwys ar drwydded cerdyn adnabod â llun ar wahân i alluogi cleientiaid i weld yn hawdd bod gan y person sy'n rhoi'r driniaeth drwydded. Mae'r drwydded yn benodol i'r unigolyn yn y llun, felly ni all person arall ei defnyddio o dan unrhyw amgylchiadau.

- Bydd yn ofynnol hefyd arddangos y dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd mewn safle amlwg yn y fangre/cerbyd cymeradwy lle mae’r triniaethau arbennig yn cael eu cyflawni.

- Bydd amodau’r drwydded yn gymwys i ymarferwyr, a bydd amodau cymeradwyo yn berthnasol i adeiladau/cerbydau a deilydd y dystysgrif cymeradwyo. Bydd yr amodau hyn yn ymwneud â'r driniaeth/triniaethau perthnasol a gyflawnir gan yr ymarferydd trwyddedig unigol a'r triniaethau a gyflawnir o fewn y fangre/cerbyd cymeradwy. Bydd yr amodau hefyd yn ymwneud â rhoi gweithdrefnau atal a rheoli heintiau trylwyr ar waith; hylendid, diogelwch ac amodau atal a rheoli heintiau yn y fangre/cerbydau lle mae ymarferwyr yn gweithio; yr offer a'r arferion a ddefnyddir; cyngor a roddir i gleientiaid cyn ac ar ôl triniaethau, a chadw cofnodion, fel enghreifftiau.

- Bydd tystysgrif cymeradwyo 3 blynedd yn benodol i'r fangre a enwir neu i'r cerbyd penodol sydd wedi'i gymeradwyo. Ni ellir trosglwyddo’r rhain i fangre neu gerbyd arall os yw’r deiliad yn symud i fangre arall neu’n newid cerbyd. Fodd bynnag, mae’n bosibl mynd â cherbydau cymeradwy i unrhyw le yng Nghymru i ddarparu triniaethau arbennig.

- Dim ond yng Nghymru y bydd trwyddedau a thystysgrifau cymeradwyo yn berthnasol ac ni fyddant yn ddilys mewn rhannau eraill o’r DU. Ni fydd pobl sydd â thrwyddedau a/neu dystysgrifau cymeradwyo fel rhan o'r cynllun trwyddedu yng Nghymru yn cael eu heithrio rhag gorfod cydymffurfio ag unrhyw gynlluniau eraill neu wneud taliadau eraill ar gyfer cynlluniau a allai fod ar waith y tu allan i Gymru.

**Ydw i'n cael trwydded/tystysgrif cymeradwyo yn awtomatig oherwydd fy mod eisoes wedi cofrestru?**

**Nac ydych.** Nid oes unrhyw hawliau trosglwyddadwy gan fod y ddau gynllun yn hollol wahanol. Hyd yma, mae unrhyw un yn gallu ‘cofrestru’ gyda'i awdurdod lleol fel ymarferydd a/neu reolwr mangre heb orfod bodloni safonau sylfaenol hylendid a diogelwch, ac nid oes gofyniad iddynt ddangos eu bod yn cynnal y safonau hynny yn eu gwaith nac yn y fangre. Mae'r cynllun trwyddedu newydd yn rhoi safonau ar waith ac mae'r broses ymgeisio a gwneud penderfyniadau ar gyfer rhoi trwyddedau a thystysgrifau cymeradwyo yn fwy trwyadl.

Fodd bynnag, os yw unigolyn neu fangre wedi'i gofrestru ar hyn o bryd, bydd trefniant pontio ar waith lle bydd yr awdurdod lleol yn cadarnhau drwy e-bost fod gan

y person, y fangre neu'r cerbyd drwydded tybiedig / tystysgrif cymeradwyaeth tybiedig i barhau i ymarfer yr un driniaeth/triniaethau neu i ddarparu'r un triniaethau o'u mangre ar yr amod eu bod yn cyflwyno cais ar gyfer y cynllun newydd o fewn 3 mis i ddechrau'r cynllun ar 29 Tachwedd 2024. Dylai unrhyw un sydd wedi'u cynnwys yn y trefniadau pontio gyflwyno eu cais/ceisiadau ar gyfer y cynllun trwyddedu newydd cyn 28 Chwefror 2025 gan y bydd y trefniadau pontio yn dod i ben ar 1 Mawrth 2025.

Felly bydd unrhyw un sydd wedi cael trwydded a/neu dystysgrif cymeradwyo ar gyfer y cyfnod pontio yn gallu parhau â'u gweithgareddau triniaethau arbennig nes bod yr awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad am eu cais/ceisiadau. Caiff yr awdurdod lleol benderfynu o fewn y cyfnod pontio o 3 mis, neu os yw'r galw yn uchel, caiff fod ar ôl y cyfnod 3 mis. Os bydd hyn yn digwydd, bydd y trefniant pontio yn parhau i fod yn berthnasol i'r ymarferwyr a'r mangreoedd hynny hyd nes y bydd yr awdurdod lleol yn gorffen prosesu'r ceisiadau ac yn rhoi gwybod i'r ymgeiswyr am y canlyniad.

**Felly NID yw'r trwyddedau / tystysgrifau cymeradwyo ar gyfer y cyfnod pontio yn barhaol.** Nid ydynt yn cynrychioli trosglwyddo hawliau o un cynllun i'r llall, ac maent wedi'u cyfyngu i'r amser y mae'n ei gymryd i'r Awdurdod Lleol brosesu'r cais a rhoi gwybod i'r ymgeisydd am y penderfyniad. Bydd yn rhaid i'r bobl hynny sy'n cael gwybod eu bod wedi'u cynnwys yn y trefniadau pontio fynd drwy'r broses drwyddedu newydd o hyd trwy gyflwyno cais am drwydded ymarferydd a/neu dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd a bod yn llwyddiannus yn y ceisiadau hynny.

### Beth os na fyddaf yn gwneud cais?

Os nad yw ymarferwyr neu bobl sy'n gyfrifol am fangreoedd sydd wedi'u cynnwys yn y trefniadau pontio yn gwneud cais am drwydded neu dystysgrif cymeradwyo cyn diwedd y cyfnod pontio y cyfeirir ato uchod, byddant yn colli'r consesiwn hwn. Felly, anogir ymarferwyr a busnesau cofrestredig i gyflwyno eu ceisiadau cyn gynted â phosibl ar ôl i'r cynllun agor.

Os nad ydych yn bwriadu gwneud cais oherwydd eich bod yn mynd i gau'ch busnes; neu roi'r gorau i ddarparu unrhyw un o'r pedair triniaeth arbennig; neu roi'r gorau i ddefnyddio'ch mangre ar gyfer unrhyw un o'r pedair triniaeth, dylech roi gwybod i'r awdurdod lleol cyn gynted â phosibl fel y gallant ddiweddaru eu cofnodion. Nid yw unrhyw driniaethau eraill nad ydynt yn dod o dan ddiffiniadau aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis neu datŵio yn cael eu heffeithio gan y cynllun hwn.

### Beth am bobl, mangreoedd neu gerbydau nad ydynt erioed wedi'u cofrestru?

Bydd angen i unrhyw un nad yw erioed wedi cofrestru (oherwydd, er enghraifft, nad yw erioed wedi bod mewn busnes o'r blaen) wneud cais am drwydded (ar gyfer eu hunain) a/neu dystysgrif cymeradwyo (ar gyfer eu mangre/cerbyd) fel y bo'n briodol ac ni allant ddechrau ymarfer na defnyddio'r safle/cerbyd i ddarparu triniaethau arbennig nes bod yr awdurdod lleol wedi gorffen prosesu eu cais/ceisiadau, wedi cynnal yr ymweliadau a'r asesiadau priodol ac wedi rhoi gwybod i'r ymgeiswyr am eu penderfyniad. Nid oes modd cynnwys yr unigolion hyn **yn y trefniadau pontio** gan

nad ydynt erioed wedi cofrestru o dan y cynllun presennol a reolir gan awdurdodau lleol.

**A oes unrhyw unigolion sydd wedi'u heithrio rhag gorfod cael trwydded triniaeth arbennig i ymarfer?**

Oes, er bod hyn wedi'i gyfyngu'n llwyr i broffesiynau penodol a ddiffiniwyd yn y gyfraith, a darperir arweiniad ar hyn yn nes at ddechrau'r cynllun trwyddedu.

**Beth am ymarferwyr sy'n ymweld o'r tu allan i Gymru?**

- Bydd yn rhaid i unrhyw ymarferydd sy'n ymweld â Chymru i gyflawni triniaethau arbennig, mewn mangre sydd eisoes wedi'i chymeradwyo neu sy'n dod â cherbyd pwrpasol i weithredu fel ystafell driniaeth symudol i Gymru i gyflawni triniaethau arbennig, gydymffurfio â gofynion y cynllun trwyddedu hefyd. Bydd angen iddynt gael trwydded triniaethau arbennig (ar gyfer eu hunain) i ymarfer o eiddo neu gerbyd cymeradwy presennol, ond os ydynt yn dod â'u cerbyd eu hunain i Gymru, bydd angen i'r cerbyd fod â thystysgrif cymeradwyo fel y bo'n briodol. Bydd dewis rhwng trwydded a/neu dystysgrif cymeradwyo cerbyd dros dro (dim mwy na 7 diwrnod) neu un 3 blynedd, yn benderfyniad busnes i'r person hwnnw ar sail pa mor aml y mae'n bwriadu dod i Gymru i weithio.

- Bydd trwyddedau triniaeth arbennig dros dro ar gael i ymarferwyr sy'n ymweld â Chymru i gyflawni triniaethau am lai na 7 diwrnod fel gweithiwr gwadd mewn mangre neu gerbyd cymeradwy sy'n bodoli eisoes, neu mewn digwyddiad/confensiwn dros dro sy'n cael ei gynnal yng Nghymru;

- Bydd unrhyw fangre sydd i'w ddefnyddio ar gyfer digwyddiad dros dro nad oes ganddo ei dystysgrif cymeradwyo ei hun yn ei gwneud yn ofynnol i drefnydd y digwyddiad gael tystysgrif cymeradwyo mangre dros dro (dim mwy na 7 diwrnod) ymlaen llaw.

- Bydd tystysgrifau cymeradwyo cerbyd dros dro ar gael i alluogi cerbydau pwrpasol o'r tu allan i Gymru i gael eu defnyddio yng Nghymru ar gyfer ymgymryd â thriniaethau arbennig mewn digwyddiadau/confensiynau dros dro sy'n para llai na 7 diwrnod yng Nghymru.

- Ni fydd yn rhaid i ymarferwyr yng Nghymru sy'n meddu ar eu trwydded triniaethau arbennig 3 blynedd eu hunain gael trwyddedau dros dro i wneud gwaith gwadd mewn mangreoedd cymeradwy eraill ar draws Cymru, neu berfformio triniaethau mewn digwyddiadau dros dro yng Nghymru, ond dim ond mewn mangreoedd/cerbydau cymeradwy a enwir ar eu trwydded y mae hawl ganddynt weithio.

**Beth am gynadleddau a digwyddiadau tymor byr eraill?**

Bydd tystysgrifau cymeradwyo mangre dros dro ar gael ar gyfer mangreoedd a fydd yn cael eu defnyddio fel lleoliad i gynnal digwyddiadau dros dro cyfyngedig o ran amser lle bydd triniaethau arbennig yn cael eu cyflawni. Bydd y tystysgrifau dros dro hyn yn benodol ar gyfer lleoliad a digwyddiad penodol ond ni fyddant yn para mwy na 7 diwrnod. Y mangreoedd sydd fwyaf tebygol o fod angen tystysgrifau cymeradwyo dros dro at y diben hwn fydd canolfannau cynadledda, gwestai a mangreoedd tebyg eraill na ddefnyddir fel arfer ar gyfer cyflawni triniaethau arbennig.

Bydd gofyn i drefnwyr digwyddiadau o’r fath sicrhau tystysgrif cymeradwyo dros dro ar gyfer y lleoliad a sicrhau bod unrhyw ymarferwyr sy’n cyflawni triniaethau yn y digwyddiad yn meddu ar eu trwydded triniaethau arbennig dilys eu hunain, naill ai eu trwydded 3 blynedd eu hunain neu (yn achos ymarferwyr sy’n ymweld) drwydded triniaethau arbennig dros dro dim mwy na 7 diwrnod i gwmpasu cyfnod amser y digwyddiad.

Pan fydd digwyddiadau'n cael eu cynnal mewn mangre yng Nghymru sydd eisoes â'i thystysgrif cymeradwyo mangre ei hun, ni fydd yn rhaid i'r trefnydd gael tystysgrif cymeradwyo mangre dros dro, er y bydd yn rhaid iddo sicrhau bod gan unrhyw ymarferwyr sy'n ymweld ac sy'n bwriadu cynnal triniaethau yn ei fangre cymeradwy eu trwyddedau triniaeth arbennig dilys eu hunain.

**Ffioedd**

Mae'r holl ffioedd sy'n ymwneud â'r cynllun trwyddedu gorfodol wedi cael eu cytuno gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer blwyddyn gyntaf y cynllun o leiaf, a byddant yr un fath ym mhob awdurdod lleol:

| **Pob cais cyntaf** | |
|---|---|
| **Ar gyfer trwydded triniaeth arbennig 3 blynedd (ar gyfer ymarferwyr unigol)** | |
| ffi ymgeisio yn daladwy adeg cyflwyno’r cais. | **£159** |
| ffi cydymffurfio, yn daladwy ar ôl i drwydded gael ei rhoi. | **£44** |
| **Ar gyfer tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd 3 blynedd** | |
| ffi ymgeisio yn daladwy adeg cyflwyno’r cais. | **£244** |
| ffi cydymffurfio, yn daladwy ar ôl i dystysgrif gymeradwyo gael ei rhoi. | **£141** |

| Ceisiadau Adnewyddu* (yn ddyledus 3 blynedd ar ôl dyddiad rhoi'r drwydded gyntaf) | |
|---|---|
| **Ar gyfer adnewyddu trwydded triniaeth arbennig am y 3 blynedd nesaf:** | |
| ffi ymgeisio yn daladwy adeg cyflwyno’r cais adnewyddu. | **£147*** |
| ffi cydymffurfio, yn daladwy ar ôl i drwydded newydd gael ei rhoi. | **£41*** |
| **Ar gyfer adnewyddu tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd am y 3 blynedd nesaf:** | |
| ffi ymgeisio yn daladwy adeg cyflwyno’r cais adnewyddu. | **£204*** |
| ffi cydymffurfio, yn daladwy ar ôl i dystysgrif gymeradwyo newydd gael ei rhoi. | **£141*** |
| * Ffioedd dangosol yn unig - mae'r rhain yn destun adolygiad a gallant newid cyn i ymarferydd gyrraedd diwedd ei gyfnod trwydded 3 blynedd presennol sef pryd y bydd angen iddo wedyn gyflwyno cais i adnewyddu am gyfnod pellach o 3 blynedd. | |

**Beth mae’r ffioedd hyn yn ei gynnwys?**

**Y ffi ymgeisio:** mae’r ffi hon yn cynnwys cost prosesu'r cais hyd at y pwynt lle mae'r awdurdod lleol yn penderfynu a ddylid rhoi neu wrthod y drwydded neu dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd. Mae hefyd yn cynnwys swyddog awdurdod lleol sy'n ymweld â'r ymgeisydd yn ei fangre i gynnal ymweliad ymgeisio â'r ymarferydd neu ymweld â'r fangre/cerbyd i gynnal asesiad cymeradwyo gyda'r ymgeisydd a chyflwyno'r gwaith papur perthnasol.

**Y ffi gydymffurfio:** mae’r ffi hon yn cynnwys cost rhedeg y cynllun trwyddedu cyfan o ddydd i ddydd, gan gynnwys cymorth a chyngor i ddeiliaid trwyddedau/tystysgrifau cymeradwyo, gorfodi'r cynllun trwyddedu, a monitro cydymffurfiaeth yn ystod cyfnod 3 blynedd y drwydded a/neu'r dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd.

Mae’r cynllun trwyddedu yn gynllun adennill costau. Mae hyn yn golygu y gall awdurdodau lleol godi ffi briodol i dalu am eu costau, ond nid oes hawl ganddynt i wneud elw o weithredu'r cynllun. Bwriad y ffioedd ar gyfer y cynllun felly yw talu costau’r awdurdod lleol wrth iddo brosesu ceisiadau a rhedeg y cynllun yn ei gyfanrwydd. Nid yw’n ffordd i awdurdodau lleol wneud arian, ac ni fydd Llywodraeth Cymru yn cael unrhyw arian o’r cynllun trwyddedu hwn.

**Pa mor aml y mae’r ffioedd hyn yn daladwy?**

**Nid** ffioedd blynyddol yw'r rhain ac maent yn daladwy unwaith ym mhob cyfnod trwydded/ tystysgrif cymeradwyo tair blynedd.

## Pam mae angen adnewyddu trwyddedau a thystysgrifau cymeradwyo?

Gall llawer newid mewn tair blynedd, ac ni fydd pawb yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol am y newidiadau hynny. Mae adnewyddu trwyddedau/tystysgrifau cymeradwyo bob tair blynedd yn sicrhau bod safonau atal a rheoli heintiau, cydymffurfiaeth ag amodau trwyddedu a chymeradwyo cymwys, a gofynion eraill yn parhau i gael eu cynnal ac nad oes unrhyw beth wedi newid i effeithio ar ddarpariaeth ddiogel y triniaethau arbennig trwyddedig neu weithrediad diogel y fangre/cerbydau cymeradwy. Mae hefyd yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cadw mewn cysylltiad ag ymarferwyr a mangreoedd/cerbydau.

## Pam mae dwy ffi wahanol – a pham nad yw'r ymarferydd a'r fangre i gyd yn rhan o'r un drwydded?

Nid oes hawl gyfreithiol i godi'r ffioedd ymgeisio a'r ffioedd cydymffurfio gyda'i gilydd ymlaen llaw, rhaid eu codi ar wahân. Dim ond y rhai y rhoddir trwydded a/neu dystysgrifau cymeradwyaeth iddynt sy'n gorfod talu elfennau cydymffurfio'r ffioedd a bydd y ffioedd yn cael eu defnyddio gan awdurdodau lleol ar gyfer eu gweithgarwch cymorth a gorfodi parhaus ar gyfer y cynllun yn ei gyfanrwydd.

Y manylebau yn y Ddeddf yw bod angen trwyddedu ymarferwyr a chymeradwyo mangreoedd/cerbydau ar wahân gan eu bod yn ymwneud â gwahanol bethau, er bod cysylltiadau clir rhwng gwaith ymarferwyr a'r man lle maent yn gweithio.
Diben **ffi trwydded triniaeth arbennig** yw trwyddedu'r ymarferydd unigol a sut mae'n cymhwyso arferion atal a rheoli heintiau, hylendid a diogelwch da i'r hyn y mae'n ei wneud, ac yna gall weithio o unrhyw fangre gymeradwy yng Nghymru. Ar y llaw arall, mae'r **ffi tystysgrif cymeradwyo mangreoedd/cerbyd** ar gyfer cymeradwyo trefn y gweithle a sut y caiff ei drefnu i gydymffurfio a hwyluso arferion hylendid a diogelwch atal a rheoli heintiau da y caniateir i ymarferwyr trwyddedig weithio ohono.

Byddai grwpio'r ymarferydd a'r fangre/cerbyd o dan yr un drwydded yn cyfyngu'r ymarferydd i'r fangre honno/cerbyd hwnnw yn unig ac yn tybio bod yr holl ymarferwyr hefyd yng ngofal eu heiddo eu hunain – mewn gwirionedd nid yw llawer o ymarferwyr yn gyfrifol am fangre ac maent eisiau rhyddid i symud rhwng nifer o fangreoedd gwahanol ac ymarfer o'r rhain.

## Beth os na fyddaf yn talu?

Os nad yw'r ffi ymgeisio yn cael ei chyflwyno, ynghyd â'r ffurflen gais ar gyfer naill ai trwydded triniaeth arbennig neu dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd, ni fydd y cais yn cael ei brosesu gan yr awdurdod lleol.

Os telir ffioedd y cais ac y rhoddir trwyddedau a thystysgrifau cymeradwyo wedi hynny, ni all yr awdurdod lleol atal y rhain rhag eu cyflwyno nes i'r ffi gydymffurfio gael ei thalu gan fod cost y drwydded / tystysgrif cymeradwyo wedi'i chynnwys yn y

ffi ymgeisio berthnasol. Os bydd awdurdod lleol yn gwrthod cais, ni fydd y ffioedd yn cael eu had-dalu gan fod y ffi ymgeisio yn cynnwys holl waith prosesu'r cais a chyhoeddi'r gwaith papur sy’n hysbysu am y penderfyniadau, waeth beth yw'r penderfyniad hwnnw.

Fodd bynnag, bydd methu â thalu'r ffi gydymffurfio ar ôl cyflwyno'r drwydded neu'r dystysgrif gymeradwyo yn golygu y gallai'r awdurdod lleol gymryd camau i adennill y swm sy'n ddyledus, a gall olygu na fydd unrhyw geisiadau a wneir gan yr ymgeisydd hwnnw yn y dyfodol (megis ar gyfer adnewyddu) yn cael eu prosesu nes bod unrhyw ffioedd sy'n ddyledus yn cael eu talu.

**Beth os ydw i eisiau newid neu amrywio rhywbeth ar ôl i mi gael trwydded neu ar ôl i'm mangre/cerbyd gael ei gymeradwyo, neu os oes angen tystysgrif trwyddedu/cymeradwyo newydd arnaf?**

Mae'r cynllun yn gwneud darpariaeth i unrhyw un sydd â thrwydded neu dystysgrif cymeradwyo i wneud cais i wneud newidiadau penodol (a elwir yn **amrywiadau**) i'w trwydded/tystysgrif cymeradwyo o fewn cyfnod 3 blynedd eu trwydded/tystysgrif cymeradwyo os yw'n berthnasol. Bydd y ffurflen gais y bydd angen iddynt ei chwblhau yn dibynnu ar yr hyn y maent am ei newid. Bydd ffi yn daladwy am bob math o gais i amrywio, yn dibynnu ar yr hyn y mae deiliad y drwydded / deiliad y dystysgrif cymeradwyo yn dymuno ei newid a bydd hyn yn talu am y gost weinyddu. Mae'r awdurdodau lleol wedi cytuno ar y ffioedd hyn ar gyfer y flwyddyn weithredu gyntaf.

Bydd yr holl ffioedd yn cael eu hadolygu gan bob un o'r 22 awdurdod lleol, felly gallant newid yn y dyfodol. Fodd bynnag, unwaith y bydd ffioedd wedi'u diwygio, ni fyddant yn cael eu hôl-ddyddio a dim ond ceisiadau newydd o ddyddiad cyhoeddi'r newidiadau mewn ffioedd fydd angen talu yn unol â'r strwythur ffioedd newydd. Mae'r ffioedd y cytunwyd arnynt fel a ganlyn ar hyn o bryd:

| **Amrywio trwydded a thrwydded newydd yn lle hen un** | |
|---|---|
| Trwydded Triniaeth Arbennig - Amrywio (Ychwanegu triniaeth newydd) | **£131** |
| Trwydded Triniaeth Arbennig - Amrywio (Newid manylion) | **£26** |
| Trwydded Triniaeth Arbennig - Trwydded newydd yn lle hen un | **£13** |

| **Amrywio Tystysgrif Cymeradwyo a Thystysgrif Cymeradwyo newydd yn lle hen un** | |
|---|---|
| Mangre / cerbyd cymeradwy - Amrywio (Ychwanegu triniaeth newydd) | **£189** |
| Mangre / cerbyd cymeradwy - Amrywio (Newid strwythurol) | **£189** |
| Mangre / cerbyd cymeradwy - Tystysgrif newydd yn lle hen un | **£13** |

**Beth yw'r ffioedd ar gyfer Digwyddiadau Dros Dro?**

| **Trwydded Triniaethau Arbennig Dros Dro a Thystysgrif Cymeradwyaeth Dros Dro** | |
|---|---|
| Trwydded Triniaeth Arbennig Dros Dro (fesul unigolyn) | **£92** |
| Eiddo / cerbyd cymeradwy - Cymeradwyaeth Dros Dro (confensiwn / prif ddiben) | **£680** |
| Eiddo / cerbyd cymeradwy - Cymeradwyaeth Dros Dro (Digwyddiad ategol) | **£385** |

**Nid oedd angen i mi dalu'r ffioedd hyn o'r blaen. Pam mae angen gwneud hynny nawr?**

Nid yw'r cofrestriad untro gydag awdurdodau lleol a'r ffi sy'n daladwy o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 bellach yn addas i'r diben o ystyried sut mae'r sector triniaethau arbennig wedi ehangu ers i'r ddeddf ddod i rym. Mae'r Ddeddf benodol honno'n darparu pwerau cyfyngedig i awdurdodau lleol weithredu yn erbyn ymarferwyr nad ydynt yn cydymffurfio, ac ar wahân i'r cofrestriad cychwynnol, nid oes llawer o angen i ymarferydd neu reolwr safle i gynnal safonau atal a rheoli heintiau. O'r herwydd, mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn nodi fframwaith rheoleiddiol cadarn o drwyddedu, sy'n cynnwys gweithdrefn ymgeisio fwy trylwyr ac adnewyddu trwyddedau a thystysgrifau cymeradwyo yn rheolaidd bob 3 blynedd. Y bwriad cyffredinol yw i ymarferwyr a gweithredwyr y fangre/cerbyd arddangos a chynnal safonau o ran atal a rheoli heintiau ac i awdurdodau lleol gael gwell dulliau cyfreithiol i fynd i'r afael ag ymarferwyr a gweithredwyr y fangre/cerbyd sydd ag arferion gwael neu sy'n gweithredu'n anghyfreithlon.

Mae'r ffioedd a bennir yn y tablau uchod sy'n ymwneud ag amrywiadau/newidiadau y gallai fod angen eu gwneud i drwydded/tystysgrif cymeradwyo gyfredol eto yn cael eu cyfrifo ar sail adennill costau felly maent yn seiliedig ar ad-dalu'r gwaith y mae angen i awdurdodau lleol ei wneud i wneud y newid/newidiadau y gwnaed cais amdanynt.

**Hoffwn gael mwy o wybodaeth am sut y bydd y cynllun hwn yn gweithio**

Bydd canllawiau ar weithrediad y cynllun, beth sydd angen i chi ei wneud i gyflwyno cais, a'r hyn sy'n digwydd ar ôl hynny, yn cael eu cyhoeddi'n agosach at ddyddiad dechrau'r cynllun.